

Hinsawdd a Chyllid

Yma gallwch ddod o hyd i adnoddau i'ch helpu chi i archwilio thema Hinsawdd a Chyllid mewn gweddi, mewn ymrwymiad i weithredu ac ymuno ag eraill i alw am ddefnydd moesegol o adnoddau ariannol. Lluniwyd yr adnoddau canlynol gan y tîm yn [Operation Noah](#), elusen Gristnogol sy'n gweithio gyda'r Eglwys i ysbrydoli gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd.

Gweithgareddau

- Astudiaethau Beiblaidd
 - Ymgyrch Astudiaethau Beibl Noah - [Set Gyflawn](#)
 - [For where your treasure is, there your heart will be also](#)
 - [The earth is the Lord's](#)
 - [Follow me](#)
 - [The Parable of the Talents](#)
- [Chwarae rôl](#): chwarae rôl sy'n ysgogi'r meddwl i'w ddefnyddio gyda grwpiau.

Straeon

- [For the Love of Our Planet: Fossil Free Future](#): Ffilm fer (2 funud 30 eiliad) wedi'i chynhyrchu gan Isaac Harvey, URC Youth
- [Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig](#) (DU) a Synod Cymru URC yn dadfuddsoddi o danwydd ffosil
- Mae myfyriwr yn annog yr Eglwys Fethodistaidd i ddadfuddsoddi: [Martha Rand](#)
- Gweinidog yn codi llais ar bensiynau a buddsoddiadau tanwydd ffosil: [John Howard](#)
- Eglwys blwyf yn Lloegr yn dadfuddosddi o danwydd ffosil: [Walthamstow y Santes Fair](#)
- Esgobaeth Gatholig Arundel & Brighton yn ymuno â [chyhoeddiad dadfuddsoddi byd-eang](#)
- Eglwys Gadeiriol Esgobol y Santes Fair, Caeredin yn [dod â buddsoddiadau tanwydd ffosil i ben](#)
- [Crynwyr ym Mhrydain yn](#) dadfuddsoddi o danwydd ffosil (gan gynnwys adnoddau defnyddiol)
- Newid cyfeiriad gan Eglwys genedlaethol: [Eglwys Iwerddon](#)
- Eglwysi yn buddsoddi yn y dyfodol ynni glân: [astudiaethau achos](#)
- 'Mae Angen Pawb' gyda Bill McKibben: [Podlediad Outrage + Optimism](#)

Gweddïau: ar gyfer amseroedd penodol mewn gwasanaethau (eiriol, mawl, cyffes, ymgysegru) neu ar gyfer gweddi unigol.

Gweddi am fuddsoddiad moesegol (wedi'i addasu o weddi gan Lya Vollering):

Annwyl Arglwydd, rydyn ni'n perthyn i ti.

Mae'r cyfan yr ydym ac sydd gennym yn eiddo i ti.

Helpa ni i ddiogelu popeth rwyd ti wedi'i roi i'n gofal.

Arllwysa bŵer dy gariad, er mwyn inni amddiffyn popeth sy'n fregus:

Y Fam Ddaear a'i holl greaduriaid.

Anfon dy Ysbryd Glân i'r rhai ohonom sy'n gyfrifol am arian ac adnoddau.

Helpa ni i fuddsoddi'n ddoeth ym mhopeth sy'n meithrin ac yn amddiffyn, gan niweidio neb.

Annog ni, fe ddeisyfwn, yn ein brwydr am gyfiawnder, cariad a heddwch. Amen

[Gweddi Laudato Si](#)

[Hunan-ymholi Ecolegol](#) gan Joseph Carver SJ

- Mae'r greadigaeth i gyd yn adlewyrchu harddwch a bendith delwedd Duw. Ble roeddwn i'n fwyaf ymwybodol o hyn heddiw?
- A allaf nodi sut y gwnes ymdrech ymwybodol i ofalu am greadigaeth Duw yn ystod y dydd hwn?
- Pa heriau neu lawenydd ydw i'n eu profi wrth i mi gofio fy ngofal am y cread?
- Sut alla i bontio'r bylchau yn fy mherthynas â'r greadigaeth, a finnau mor barod i feddwl fy mod yn deall pob dim?
- Fel y dychmygaf yfory, gofynnaf am y gras i weld y Crist Ymgnewdoledig yn rhyng-gysylltiad deinamig i'r holl greadigaeth.

Emynau a chaneuon - sy'n cyd-fynd â'r thema ac y gellir eu defnyddio mewn addoliad unigol neu ar y cyd.

- Popeth a wnaeth ein Duw a'n Rhi (*Caneuon Ffydd* 134)
- [Earth Song](#)
- [This Place Is a Shelter](#)
- [Deep Peace](#)
- [Be Thou My Vision](#)
- [God of all Creation](#)
- [We Are The Tenants of the King](#)

Fideos - i'w defnyddio mewn gwasanaethau neu i'w rhannu ar-lein:

- [For the Love of Our Planet: Fossil Free Future](#): cynhyrchwyd gan Isaac Harvey, leuenctid yr URC
- [DivestInvest: a moral imperative](#)
- Create a brighter future today: [global divestment announcement](#)
- [Archbishop Desmond Tutu on divestment](#)

Ymrwymo

- [Dadfuddsoddi'ch eglwys](#): Arweiniad ar sut y gall eich eglwys ddadfuddsoddi o danwydd ffosil.
- Buddsoddwch mewn datrysiadau hinsawdd: Dyma [rai astudiaethau achos](#) o eglwysi yn buddsoddi mewn ynni glân. Dysgu mwy gan [FaithInvest](#) a'r [Catholic Impact Investing Collaborative](#).
- Newid i fanc moesegol: [adnoddau Money Makes Change yr ECCR ar](#) gyfer eglwysi ac elusennau.

Codi'ch llais

- Siaradwch ag aelodau eraill eich eglwys am yr argyfwng hinsawdd a phwysigrwydd dadfuddsoddi o danwydd ffosil.
- Gofynnwch i weinidog neu drysorydd eich eglwys a ellir trafod dadfuddsoddi yn eich cyfarfod cyngor eglwys neu CSP nesaf.
- Os yw eich eglwys yn gwneud ymrwymiad dadfuddsoddi, rhwch wybod i [Operation Noah](#) ac i fuddsoddwyr yr Eglwys cenedlaethol / rhanbarthol yn eich enwad.
- Ymunwch â'r [cyhoeddiad dadgyfeirio byd-eang](#) nesaf ar gyfer sefydliadau ffydd ym mis Mai 2021.
- Lledaenwch y gair: rhoi cyhoeddusrwydd i'ch penderfyniadau yn y cyfryngau, gan gynnwys y wasg a'r radio lleol, cyhoeddiadau sy'n seiliedig ar ffydd a'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd hyn yn ysbrydoli eraill ac yn lluosu'ch effaith.
- Cysylltwch ag eraill sy'n ymgyrchu dros ddadfuddsoddi yn eich enwad i gynyddu eich effaith. [Cysylltwch ag Operation Noah](#) i ddarganfod mwy.
- [Darganfyddwch fwy am sut mae'ch pensiwn yn cael ei fuddsoddi](#) a newid i'r opsiwn moesegol lle bynnag y bo modd.

[Ewch i wefan ymgyrch](#) Operation Noah, Bright Now, i gael mwy o wybodaeth am ddadfuddsoddi o danwydd ffosil a buddsoddi mewn dewisiadau amgen glân.